

Adran 1 - Lefelau ffioedd ar gyfer 2021/22

Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffioedd ym mhob lleoliad

Lefel ffioedd	Lleoliad y cwrs
£9,000	Campysau'r Brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wreccsam.
	Cymwysterau: Graddau Baglor a Meistr israddedig estynedig, a TAR.
£1,350	Campysau'r brifysgol ym Mangor/Porthaethwy, a Wreccsam.
	Cymwysterau Graddau Baglor a Meistr israddedig estynedig - am y blynyddoedd rhyngosod a blynyddoedd dramor perthnasol.

Adran 1.2 - Lefelau cyfanredol ffioedd

Mae Prifysgol Bangor yn cadarnhau, yn unol â'i Pholisi Ffioedd Dysgu (a gyhoeddir ar ei thudalennau gwe ochr yn ochr â'i Hatodlen Ffioedd a'i Chynllun Ffioedd a Mynediad), na fydd unrhyw godiadau mewn ffioedd i fyfyrwyr israddedig a TAR yn ystod cyfnod eu rhaglen llawn amser.

Y paragraffau canlynol yw'r rhannau perthnasol o Bolisi Ffioedd Dysgu'r Brifysgol: -

3.3 Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cap statudol ar ffioedd ar gyfer rhaglenni Israddedig a rhaglenni Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) i fyfyrwyr cartref/o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r brifysgol yn gosod ffioedd llawn amser a rhan amser i adlewyrchu'r cap ffioedd uchaf cymwys hwn, fel y'i diffinnir yn ei Chynllun Ffioedd a Mynediad blynyddol, y cytunwyd arno gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Gellir adolygu ffioedd, os caniateir hynny a lle bo angen, yn unol â'r capiau ffioedd statudol perthnasol; fodd bynnag, ni fydd y brifysgol yn codi'r ffi am unrhyw gredydau neu raglenni yn ystod blwyddyn academaidd, nac unwaith y bydd y ffioedd am flwyddyn academaidd wedi'u cyhoeddi.

8.2 Yn achos pob myfyriwr hyfforddedig, y drefn ffioedd (y polisi ffioedd perthnasol a'r atodlen ffioedd) sydd yn ei lle ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf fydd yn parhau i fod yn weithredol trwy gydol eu rhaglen, oni bai: -

- 1. bod newid yn y dull astudio (e.e. o lawn amser i ran amser), neu*

2. *bod seibiant astudio o fwy na 2 flynedd, neu*

3. *bod cytundeb wedi'i ddiffinio'n wahanol yn y llythyr cynnig,*

ac yn dilyn hynny byddai trefn ffioedd newydd yn gymwys. Nid oes unrhyw newid yn y drefn ffioedd os yw myfyriwr yn trosglwyddo o raglen anrhydedd i raglen nad yw'n anrhydedd, neu i'r gwrthwyneb.